CYNGOR CYMUNED LLANDYSUL COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion Cyfarfod Misol Cyngor Cymuned Llandysul Community Council a gynhaliwyd yng Nghanolfan Ieuenctid Tysul Youth Centre, Llandysul a thrwy gyfrwng Zoom, ar 13eg Ionawr 2025
Minutes of Monthly Meeting of Cyngor Cymuned Llandysul Community Council held at Canolfan Ieuenctid Tysul Youth Centre, Llandysul and via Zoom, on 13th January 2025

Yn Bresennol/Present:
Cynghorwyr/Councillors Eileen Curry, Beth Davies, Douglas Davies, Heddwen Davies, Peter Evans, Andrew Howell, Gethin Jones, Sue Lloyd, Eifion Rees, Ben Scott Jones a/and Chynghorydd Sir De Llandysul / County Councillor Llandysul South Keith Evans a/and Chynghorydd Sir Gogledd Llandysul a Throedyraur/ County Councillor Llandysul North Troedyraur Maldwyn Lewis
Ymddiheuriadau/Apologies Derbyniwyd ymddiheuriadau wrth Gynghorwyr Elen Grantham Davies, Andrew Howell a Maldwyn Lewis / Apologies for absence were received from Cllr Elen Grantham.
Dymunodd Cynghorydd Beth Davies Flwyddyn Newydd Dda i bawb.
Cllr Beth Davies wished all a Happy New Year.

Datgelu Buddiannau/Declarations of Interest
Datgeloddd Cynghorydd Keith Evans fudd mewn perthynas â'r cais am gyllid a gafwyd gan Llandysul Pont-Tyweli Ymlaen. Atgoffwyd y cyngor o'r ffaith ei fod wedi cael goddefeb i siarad a phleidleisio am y mater gan bwyllgor Moeseg a Safonau Ceredigion. Datgelodd Cynghorydd Beth Davies fudd yn y cais am gyllid gan Llandysul Pont-Tyweli Ymlaen hefyd, a gadawodd yr ystafell tra bod y cais yn cael ei drafod.
Cllr Keith Evans declared an interest with regards to the request for funding received from Llandysul Pont-Tyweli Ymlaen. The Council were reminded that he had been given dispensation to speak and vote on the issue by Ceredigion Ethics and Standards committee. Cllr Beth Davies also declared an interest in the funding application from Llandysul Pont-Tyweli Ymlaen and left the room while the application was being discussed.

Adroddiad/Report

Cafwyd adroddiad gan PCSO Anwen Davies 8176, yn rhoi diweddariad am y Troseddau a'r Digwyddiadau yn ardal y Cyngor. / A report was received from PCSO Anwen Davies 8176 providing a Crime and Incident Update for the Councils area.
Isod, gweler rhestr o'r troseddau / digwyddiadau a adroddwyd yn wardiau tref Llandysul, Pontsiân a Chapel Dewi. / Below is a list of crimes / incidents that were reported within Llandysul town, Pontsian and Capel Dewi wards.

Adroddiad Rhagfyr/December Report
Adroddwyd am 13 trosedd yn Ward Tref Llandysul, 9 pryder diogelwch y cyhoedd a lles, a 2 adroddiad traffig a 2 drosedd, 8 adroddiad diogelwch personol a 3 adroddiad trafnidiaeth yn ward Pontsiân a Chapel Dewi ym mis Tachwedd / 13 crimes were reported in Llandysul Town Ward, 9 public safety and welfare concerns, and 2 traffic reports and 2 crimes, 8 personal safety and 3 transport reports in Pontsian and Capel Dewi ward in November

Ward Tref Llandysul Town Ward
Trosedd – Domestig /– Domestics - 2
Y partïon yn adnabod ei gilydd / Parties known to each other

Trosedd-Aflonyddu/Crime-Harassment - 4
Y partïon yn adnabod ei gilydd / Parties known to each other – 2
Y partïon ddim yn nabod ei gilydd / Parties not known to each other – 2
Difrod Troseddol/Criminal Damage – 1
1 adroddiad am ddifrod i gerbyd a dwyn offer o'r cerbyd /1 report of damage to vehicle and tools taken within
Trosedd - Ymosodiad /Crime- Assault -1
Y partïon yn hysbys / Parties known
Trosedd Twyll/Crime Fraud – 2
1 adroddiad am ddefnyddio manylion mewn ffordd dwyllodrus / 1 report of details used fraudulently
1 adroddiad am dwyll rhamant – collwyd arian / 1 report of romance fraud – money lost

Trosedd - Dwyn – Crime – Theft– 1
Dwyn cerbyd trwy ei gymryd heb ganiatâd, y perchennog yn adnabod yr unigolyn. / Theft of vehicle taken without consent, person known to owner.
Trosedd Rhywiol / Crime Sexual – 1
1 adroddiad am ddelweddau anweddus / 1 report of indecent images
Trosedd Byrgleriaethau / Crime Burglaries – 1
1 adroddiad am unigolyn anhysbys sydd wedi ceisio cael mynediad i adeilad masnachol, achoswyd difrod ond ni chymrwyd unrhyw eitemau / 1 report of unknown person has attempted to gain entry into a commercial building, damaged caused no items taken
Pryderon Diogelwch y Cyhoedd a Lles / Public Safety and Welfare Concerns – 9
Troseddau Traffig – 3 adroddiad / Traffic Offences – 3 reports

Ward Pontsiân a Chapel Dewi / Pontsian and Capel Dewi Ward
Pryderon Diogelwch y Cyhoedd a Lles / Public Safety and Welfare Concerns – 8
Trosedd-Aflonyddu/Crime-Harassment - 1
Y partïon yn adnabod ei gilydd / Parties known to each other
Difrod Troseddol/Criminal Damage – 1
Difrod i ffens wrth gwympo coeden / Damage to fence during tree felling
Trafnidiaeth / Transport – 3
Damwain Ffordd o ganlyniad i dywydd difrifol / Road Traffic Collision due to severe weather

Penderfynwyd y dylai'r clerc gysylltu â'r PCSO i holi a oedd yr holl ddamweiniau ffyrdd o ganlyniad i gyflwr gwael y ffordd.
It was decided that the clerk contact the PCSO to ask if all the traffic collisions were due to poor road conditions.

Cofnodion/Minutes
Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod misol a gynhaliwyd ar 16/12//24 / Minutes of monthly meeting held on 16/12/24 were confirmed

DRAFT

Materion yn Codi: -	**Matters Arising: -**
Penderfynwyd y dylai'r clerc gysylltu â Rhodri Thomas ynghylch y Gysgodfan Fysiau yng Nghapel Dewi	It was decided that the clerk contact Rhodri Thomas with regards to the Bus Shelter at Capel Dewi
Diolchodd Cynghorydd Beth Davies i Gynghorydd Keith Evans a'r holl wirfoddolwyr eraill am eu gwaith caled wrth geisio trwsio'r Goleuadau Nadolig yn Llandysul. Esboniodd Cynghorydd Keith Evans eu bod wedi peri cryn broblemau eleni ond y bydd yn eu harchwilio yn y dyfodol agos i ddarganfod y broblem.	Cllr Beth Davies thanked Cllr Keith Evans and all the other volunteers for all their hard work in trying to fix the Christmas Lights in Llandysul. Cllr Keith Evans explained that they had been very problematic this year but will be checking them in the near future to see what the problem is.
Penderfynwyd y dylai'r clerc ofyn i finiau halen gael eu lleoli ger mynedfa Y Ffawydd a Pharc yr Ynn. Bydd y clerc yn cysylltu â'r Cyngor i holi a oes modd iddynt lenwi biniau halen y Cyngor.	It was decided that the clerk ask for grit bins to be located at the entrance of The Beeches and Parc yr Ynn. The clerk to contact the Council to ask if they could replenish the salt in the Councils grit bins.
Mae tair carafán statig wedi ymddangos ym Maesymeillion nawr. Bydd y Clerc yn cysylltu â'r cyngor unwaith eto gan na fu unrhyw hysbysiadau o geisiadau cynllunio.	Three static caravans had now appeared in Maesymeillion. Clerk to contact the council again as there have been no planning application notices.
4) Ceisiadau Ariannol: Cafwyd gais am gyllid gan Llandysul Pontyweli Ymlaen am help i dalu costau rhedeg yr Ŵyl Arddio Flynyddol a gynhelir ar 13-16 Chwefror 2025. Penderfynwyd rhoi'r swm y gofynnwyd amdano, sef £1000.	**4) Funding Applications:** A request for funding was received from Llandysul Pontyweli Ymlaen for help with the running costs of the Annual Gardening Festival to be held on the 13-16 February 2025. It was decided to donate the requested amount of £1000.
5) Materion i'w Trafod **<u>Praesept</u>** Cynhaliwyd cyfarfod o'r pwyllgor cyllid cyn y cyfarfod llawn i drafod y praesept. Cyflwynwyd adroddiadau ariannol er mwyn i'r Cynghorwyr eu hystyried, a chytunodd pawb y dylid codi'r Dreth Gyngor 5% ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26, a fyddai'n rhoi cyfanswm o £54,003.85.	**5) Matters for Discussion** **<u>Precept</u>** A meeting of the finance committee had been held prior to the full meeting to discuss the precept. Financial reports were presented for Councillors consideration, and it was agreed by all that an increase in Council Tax of 5% for the 2025/26 financial year which would yield £54,003.85.
<u>Cinio Blynyddol</u> Penderfynwyd cynnal y Cinio Blynyddol yn Nhafarn Gwarcefel ar 14 neu 21 Chwefror. Bydd Cynghorydd Beth Davies yn gwneud y trefniadau gyda'r lleoliad, gan gadarnhau pa ddyddiad sydd ar gael.	**<u>Annual Dinner</u>** It was decided to hold the Annual dinner at Gwarcefel Arms on the 14th or 21st of February Cllr Beth Davies to arrange

DRAFT

Lle Chwarae Plant Llandysul
Roedd Cynghorydd B Scott-Jones wedi ymchwilio faint o'r ffens oedd wedi pydru a faint o'r pren y byddai angen ei ddisodli, ynghyd â'r costau. Cyflwynodd ddau bris gwahanol i'r Cynghorwyr a phenderfynwyd mynd am ddewis B. Penderfynwyd y dylai'r clerc gael dyfynbris arall am y gwaith er mwyn eu cymharu.

Materion Ward Brys

Capel Dewi
Esboniodd Cynghorydd Douglas Davies nad yw arwydd ffordd Capel Dewi wedi cael ei ddisodli o hyd.

Llandysul
Esboniodd Cynghorydd Keith Evans bod cryn dipyn o gwynion yn cael eu gwneud am y ffaith nad oes lle parcio ar gael ar y Stryd Fawr, sy'n arwain at y busnesau yn colli busnes. Penderfynwyd gofyn a fyddai modd i'r warden fod yn Llandysul yn fwy aml.
Adroddodd Cynghorydd Andrew Howell bod twll mawr yn y ffordd yn y Stryd Fawr y tu allan i siop Spar. Bydd y clerc yn adrodd am hyn i'r Cyngor Sir.

Pontsiân
Esboniodd Cynghorydd Sue Lloyd bod angen bin halen ym Maesymeillion o Ffordd Tre-groes. Bydd y clerc yn cysylltu â'r Cyngor Sir.
Mae nifer o dai heb wasanaeth ffôn na wifi ers y storm. Mae Cynghorydd Gethin Jones mewn cysylltiad â Ben Lake AS am y mater hwn.
Mynegodd Cynghorydd Eileen Curry bryder am gyflwr y ffordd o Gapel Carmel ym Mhren-gwyn i Bontsiân. Bydd y clerc yn cysylltu â'r Cyngor.

Mae angen baneri Cymru newydd ar bentrefi Pren-gwyn a Phontsiân. Bydd y clerc yn trefnu hyn.

Adroddiad gan Gynghorwyr Sir
Cafwyd gohebiaeth mewn neges e-bost yn rhoi gwybodaeth fanwl i'r Cyngor am weithgareddau Cynghorydd Keith Evans, ward De Llandysul, yn ystod y cyfnod rhwng 10 Rhagfyr 2024 ac 13 Ionawr 2025 ac fe'i nodwyd.

with the venue on which date is available.

Llandysul Children's Play area
Cllr B Scott-Jones had investigated how much of the fence was rotten and how much of the timber needed replacing along with costings. He presented the Cllrs with two different prices and it was decided to choose option B. It was decided that the clerk get another quote for the work for comparison.

Urgent Ward Matters

Capel Dewi
Cllr Douglas Davies explained that the Capel Dewi road sign had still not been replaced.

Llandysul
Cllr Keith Evans explained that there are a lot of complaints that there is no parking available on the High Street meaning to loss of business to all the businesses. It was decided to ask if the traffic warden could be in Llandysul more often.
Cllr Andrew Howell reported a big pothole on the High Street outside Spar shop. The clerk to report this to the County Council.

Pontsian
Cllr Sue Lloyd explained the need of a grit bin in Maesymeillion from the Tregroes Road. The clerk to contact the County Council.
Numerous houses are without a telephone or wifi since the storm. Cllr Gethin Jones was in contact with MP Ben Lake regarding this.
Cllr Eileen Curry expressed concern with the state of the road from Carmel Chapel in Prengwyn to Pontsian. The clerk to contact the Council.

Prengwyn and Pontsian villages needed a new Welsh flags. The clerk to arrange this.

Report by County Councillors
E-mail correspondence was received as requested providing the Council with

DRAFT

Esboniodd Cynghorydd Maldwyn Lewis y byddai'n gwneud ymholiadau am yr angen am fin halen ym Maesymeillion. Os na fyddai'r Cyngor yn fodlon darparu un, byddai'r Cyngor Cymuned yn fodlon. Soniodd hefyd am y broblem ar y bont yn Rhydowen, gan ei bod wedi cael ei tharo tua saith gwaith yn ddiweddar. <u>Gohebiaeth</u> Cafwyd Clerks and Councils Direct ac fe'i nodwyd. <u>Cynllunio</u> Nid oedd unrhyw geisiadau cynllunio. <u>Gwybodaeth Ariannol</u> <u>Llinos Jones</u> – Ysgrifennwyd siec am y swm o £84.28 am y gwasanaeth cyfieithu ym mis Rhagfyr. <u>Meredith Williams</u>– Ysgrifennwyd siec am y swm o £620 am dorri'r porfa ym maes parcio Plas y Dderwen, gyferbyn â Neuadd Tysul, y llwybr troed o ochr Stryd Ffynnon a mynedfa y pwll nofio a Glascoed. Ail-ysgrifennwyd siec am y swm o £150 i Ffermwyr Ifanc Pontsiân ar gyfer y Rhodd gan Gynghorwyr ym mis Mawrth 2024.	detailed information on Cllr Keith Evans Llandysul South wards' activities for the period 10 December 2024 to 13 January 2025 and noted. Cllr Maldwyn Lewis explained that he would be following up the need for a salt bin in Maesymeillion. If the Council wouldn't provide one then the Community Council would. He also addressed the problem with the bridge in Rhydowen as it had been hit about seven times recently. <u>Correspondence</u> Clerks and Councils Direct were received and noted. <u>Planning</u> There were no planning applications. <u>Financial Information</u> <u>Llinos Jones</u> – Cheque for £84.28 was written for December translation. <u>Meredith Williams</u>– A cheque was written for £620 for grass cutting of Plas y Dderwen, car park opposite Tysul Hall, footpath from the side of Well Street and entrance of swimming pool and Glascoed. A cheque for £150 was re-written to Pontsian Young Farmers for the Councillors Donation in March 2024.

DRAFT

Arwyddo Sieciau/Signing of Cheques:

Gorchmynnwyd ac i'w tynnu gan y Trysorydd/
Ordered and same are hereby drawn on the Treasurer:-

		£ c/£ p	*Rhif siec/ Cheque number*
Meredith Williams	Cynnal a Chadw	620.00	001299
Llinos Jones	Cyfieithu/Translation	84.28	001300
Nia Davies	Cyflog y Clerc	633.07	001301
HMRC	Cyflog y Clerc	158.20	001302
Llandysul Pontweli Ymlaen	Rhodd/Donation	1000.00	001303
Clwb Ffermwyr Ifanc Pontsian	Rhodd/Donation	150.00	001304

DRAFT